MAE POPETH YN GYSYLLTIEDIG Â PHOPETH ARALL

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU 2019-23

CRYNODEB GWEITHREDOL



CYFLAWNI MWY GYDA'N GILYDD TUAG AT DDE CYMRU FWY DIOGEL

MEWN CHWE BLYNEDD ERS ETHOLIADAU CYNTAF COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU RYDYM WEDI DATBLYGU ETHOS GRYMUS O GYDWEITHREDU ER MWYN CADW EIN CYMUNEDAU'N DDIOGEL. MAE'R COMISIYNYDD A'R PRIF GWNSTABL YN RHANNU'R EGWYDDORION A'R GWERTHOEDD SY'N SAIL I'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU HWN.

Rydym am ddeall ac ymateb i anghenion ein holl gymunedau yn y ffordd orau posibl ac mae ein gwaith gyda phartneriaid yn rhan hanfodol o sicrhau bod pobl yn cael yr ymateb sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r her ariannol yn un sylweddol. Ers 2010 mae'r arian a gawn gan Lywodraeth y DU drwy Grant yr Heddlu wedi cael ei dorri mwy na 31% mewn termau real ac eto rydym wedi cyflawni buddiannau cymdeithasol ac economaidd o bron £0.5 biliwn i Dde Cymru dros y blynyddoedd diwethaf; mae hyn oherwydd ein bod wedi bod yn benderfynol o ganolbwyntio ar arloesedd, ymyrryd yn gynnar a chymryd camau gweithredu cyflym a chadarnhaol, gan weithio gyda phartneriaid i fod yn fwy effeithiol fyth gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion fel iechyd meddwl a llesiant.

Nid ydym yn barod i droi ein cefnau ar gymunedau lleol nac i roi'r gorau i fynd i'r afael â throseddau lefel isel, nac ychwaith i golli cyfleoedd i'w hatal. Felly mae Plismona yn y Gymdogaeth wrth wraidd ein strategaeth. Byddwn yn atgyfnerthu rôl ein Swyddogion Cymorth Cymunedol i ganolbwyntio ar ddatrys problemau yn lleol ac i wrando ar gymunedau lleol, ymgysylltu â nhw a'u grymuso i fod yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus. Mae'n golygu cynnwys pawb, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, cynnal lefelau uchel o foddhad dioddefwyr a gweithio gyda phartneriaid. Dyna pam mae ein timau arwain yn chwarae rhan lawn yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gweithio gyda llywodraeth leol, y GIG a phartneriaid eraill ar gyflawni'n lleol ac ar y weledigaeth ddiwygiedig o Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau mwy o bartneriaeth drwy lai o gyfarfodydd â ffocws gwell.

Mae ein cyflawniadau hyd yma wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith pellach ond mae angen i ni geisio gwella ein gwasanaeth ac ymateb yn effeithiol i ofynion newydd o hyd. Cynllun yr Heddlu a Throseddu De Cymru sy'n sail i'n hymateb a bydd yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gymunedau De Cymru.

Gallwch ddarllen y cynllun llawn yn **southwalescommissioner.org.uk**



Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru



Matt Jukes QPM
Prif Gwnstabl

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru yn nodi'r blaenoriaethau y byddaf yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif amdanynt wrth i ni barhau â'n taith gyffredin tuag at Dde Cymru Fwy Diogel.

NI FYDD YMCHWILIAD NAC YMATEB BYTH YN WELL NAG ATAL TROSEDD YN Y LLE CYNTAF. DYNA FYDD EIN BLAENORIAETH O HYD.

Matt Jukes QPM
Prif Gwnstabl

CYDWEITHREDU YW'R BRIF EGWYDDOR SY'N EIN HYSBRYDOLI. GYDA'N GILYDD, GALLWN GYFLAWNI MWY NAG Y GALLWN EI GYFLAWNI AR EIN PEN EIN HUNAIN.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

RYDYM WEDI UNO I DDILYN YR EGWYDDORION A'R BLAENORIAETHAU CANLYNOL:

- Atal troseddu, a chefnogi cymunedau diogel, hyderus a chryf, fel cyfrifoldeb cyntaf yr heddlu
- Helpu i gysylltu Gwasanaethau Cyhoeddus a'u gwneud yn arloesol, yn uchelgeisiol ac yn gynaliadwy
- Mynd i'r afael â thueddiadau troseddau ac achosion sylfaenol drwy ymyrraeth gynnar a chamau gweithredu cadarnhaol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth
- Cynllunio ar gyfer llesiant hirdymor cenedlaethau'r dyfodol a mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig o atal problemau, cynnwys pobl a thorri cylchoedd niwed rhwng y cenedlaethau gyda'n gilydd
- Gweithio fel aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn Ne Cymru
- Ceisio creu cysylltiadau rhwng y cyd-fyrddau gwahanol sy'n gweithredu ar lefel leol er mwyn helpu i greu "un gwasanaeth cyhoeddus" cydlynol ar draws asiantaethau datganoledig ac annatganoledig



LLAIS Y BOBL

DYLETSWYDDAU STATUDOL

"Mae'r ysbryd o gydweithredu a gwaith partneriaeth yn cynnwys cefnogi a herio er mwyn gwneud Heddlu De Cymru a'r system cyfiawnder troseddol yn gryfach. Mae'r Cynllun hwn yn nodi fy mlaenoriaethau o ran gostwng troseddu a chefnogi ein cymunedau yn ogystal â dwyn y Prif Gwnstabl a'r system cyfiawnder troseddol leol i gyfrif fel "Cyfaill Beirniadol".

Y Gwir Anrh Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl rolau a chyfrifoldebau penodol. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol ar gyfer ardal yr heddlu. Caiff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei ethol i roi llais i'r bobl ac i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni gwasanaethau plismona effeithlon ac effeithiol.

Mae'r ethos cydweithredol sy'n sail i'n rolau yn Ne Cymru yn golygu bod y Cynllun hwn yn adlewyrchu meysydd sydd wedi cael eu datblygu ar y cyd i atal troseddau, gan greu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion y gymuned ac sy'n creu ymddiriedaeth a hyder.

"Fel Comisiynydd a thîm, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau yn lleol ac yn genedlaethol i greu dull gweithredu unedig o atal a gostwng troseddu."

Rhaid i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2011, yn ôl y Comisiynydd:

- Benodi (neu ddiswyddo) y Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif
- Sicrhau bod yr heddlu lleol yn effeithlon ac yn effeithiol
- Pennu blaenoriaethau lleol drwy Gynllun yr Heddlu a Throseddu
- Pennu cyllideb yr heddlu a phenderfynu ar y praesept (y swm y mae pobl yn ei gyfrannu at wasanaethau plismona drwy'r dreth gyngor)
- Cyfrannu at wasanaethau plismona cenedlaethol a rhyngwladol
- Dwyn partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn rhai cydgysylltiedig



TRAWSNEWID GWASANAETHAU CYHOEDDUS

MAE DAU DDARN ALLWEDDOL O DDEDDFWRIAETH YN HELPU I LYWIO'R FFORDD Y MAE PARTNERIAID YNG NGHYMRU YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r arweinyddiaeth mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n gwneud ein cymunedau yn fwy diogel ac sy'n gwella ein llesiant.

RHANNWN UCHELGAIS Y SAITH NOD LLESIANT I GYMRU:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

RYDYM WEDI MABWYSIADU'R PUM FFORDD O WEITHIO A NODIR YN NEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:



CYFRANOGIAD

Rydym yn ceisio ymgysylltu â'n cymunedau a'u grymuso, gan weithio gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau partner i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn.



CYNLLUNIO AR GYFER YR HIRDYMOR

Drwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol rydym yn rhagweld ac yn lleihau'r galw am yr heddlu a'n hasiantaethau partner. Mae ein harweinyddiaeth ddigidol yn paratoi ein gweithlu i weithio'n hyblyg ac yn effeithlon yn ein cymunedau.



ATAL

Mae ymyrryd yn gynnar, a chymryd camau gweithredu cyflym yn helpu i dorri cylchoedd niwed rhwng y cenedlaethau.



INTEGREIDDIO

Cysylltu popeth â phopeth arall. Ni all yr Heddlu ar ei ben ei hun leihau troseddu felly rydym yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig o ymdrin â pholisi, strategaeth a darpariaeth, o wella iechyd meddwl a llesiant i addysg a gwasanaethau ieuenctid.



CYDWEITHIO

Fel "Gwahoddedigion Statudol" rydym yn helpu i gyflawni'n lleol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a threfniadau diwygiedig Diogelwch Cymunedol. Rydym yn mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod gyda phartneriaid drwy'r rhaglen "Camau Cynnar Gyda'n Gilydd" , ac mae ein Canolfan Tri Gwasanaeth yn meithrin partneriaeth wych â'r Gwasanaethau Tân ynghyd ag arbenigedd gan y gwasanaethau Ambiwlans ac iechyd meddwl. Mae ein hethos cydweithredol yn golygu ein bod yn cydweithio'n reddfol.

"MAE POPETH YN GYSYLLTIEDIG Â PHOPETH ARALL"

Y GWIR ANRH ALUN MICHAEL

PLISMONA EIN CYMDOGAETHAU

PLISMONA YN Y GYMDOGAETH YW CONGLFAEN EIN DULL GWEITHREDU

Ar adeg o gyni, mae hyn hyd yn oed yn bwysicach a nod ein hadolygiad cyfredol ar y cyd yw gwneud Plismona yn y Gymdogaeth hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Cyfrifoldeb pawb yw arweinyddiaeth a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu rôl benodol ein Swyddogion Cymorth Cymunedol fel rhai sy'n datrys problemau ac sy'n gwrando ar bobl leol, yn eu cynnwys ac yn eu grymuso. Mae ein dull lleol o gadw cymunedau'n ddiogel yn helpu i drechu eithafiaeth, terfysgaeth a throseddau difrifol a threfnedig.

ARWEINYDDIAETH DDIGIDOL

MAE TECHNOLEG ARWEINYDDIAETH DDIGIDOL YN CREU BYGYTHIADAU NEWYDD OND GALL WELLA'R FFORDD RYDYM YN PLISMONA EIN CYMUNEDAU

Rydym ar flaen y gad o ran arweinyddiaeth ddigidol – gan weithio'n gydweithredol â Heddlu Gwent i gyflawni'r canlynol:

- Gweithio ystwyth i gynyddu'r amser a dreulir gan swyddogion yn eu cymunedau
- Ffyrdd newydd a gwell o roi gwybod am droseddau
- Systemau mwy effeithlon ac integredig

Mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo arloesedd gan feithrin hyder yn y modd y defnyddir technoleg. Er enghraifft, mae Heddlu De Cymru wedi bod ar flaen y gad wrth ddefnyddio technoleg adnabod wynebau fel mesur ataliol mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr ac mae ein dull gweithredu wedi sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio gydag uniondeb a chyfreithlondeb.

GWELLA SYSTEMAU LLYWODRAETHU A CHRAFFU

UN O GYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL Y COMISIYNYDD YW DARPARU ATEBOLRWYDD AR RAN Y CYHOEDD

Mae ein trefniadau llywodraethu yn sicrhau atebolrwydd priodol ac yn helpu i greu arweinyddiaeth effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn adolygiad, penderfynodd y Prif Gwnstabl ddyblu nifer y swyddogion sydd wedi eu hyfforddi i ddefnyddio Taser. Craffodd y Comisiynydd ar y dystiolaeth a dangosodd fod y penderfyniad yn gyfiawnadwy, yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol i atal anaf i swyddogion yr heddlu, y cyhoedd a'r rhai sy'n cael eu ffrwyno.

ATAL TRAIS

MAE LLEIHAU TRAIS WEDI BOD YN NOD ALLWEDDOL I'R COMISIYNYDD ERS 2012, GAN DDEFNYDDIO DATA A RENNIR Â'R GWASANAETH IECHYD I NODI BLE A SUT MAE TRAIS YN DIGWYDD

Mae hyn wedi amlygu trais na chafodd yr heddlu ei hysbysu amdano, gan arwain at gamau gweithredu lleol i atal rhagor o drais yn y dyfodol.

Gyda phartneriaid, rydym wedi sicrhau £1.2miliwn gan y Swyddfa Gartref i ddarparu dull Cymru gyfan o weithredu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais drwy fentrau ymyrraeth gynnar ac atal. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid – yn enwedig Iechyd Cyhoeddus Cymru – i leihau'r hyn sy'n sbarduno trais, delio mewn cyffuriau a throseddau sy'n ymwneud â chyllyll.

MYND I'R AFAEL Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

ADNABOD POB MATH O DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED YN GYNNAR YW'R ALLWEDD I GADW POBL YN DDIOGEL YR ALLWEDD I GADW POBL YN DDIOGEL

Gwnaeth ein Cynllun Trais yn Erbyn Menywod a Merched 2014-17 llwyddiannus ddatblygu ein dull gweithredu y tu hwnt i gam-drin domestig, gan wella'r ffordd rydym yn defnyddio data partneriaeth, ein gwneud yn fwy cydgysylltiedig o ran atal trais, a chynnwys dioddefwyr a goroeswyr wrth ddatblygu dull gweithredu hirdymor.

YN 2017 DYFARNWYD £1.4M I NI O GRONFA TRAWSNEWID GWASANAETH TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED (VAWG)

Mae ein gwaith i atal y broblem gymhleth hon yn cynnwys cydweithio â phartneriaid gan gynnwys:

- Rhaglen Newid sy'n Para Cymorth i Ferched Cymru, sy'n atgyfnerthu ymatebion i ddioddefwyr gyda phwyntiau datgelu lleol, Cenhadon Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol y Gellir Ymddiried Ynddynt a chymorth arbenigol ychwanegol
- Ehangu'r prosiect Drive i weithio gyda 200 o gyflawnwyr â blaenoriaeth i ddiogelu dioddefwyr a phlant a thorri'r cylch niwed
- Mae Byrddau Lleol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector) yn cyflwyno dull system gyfan integredig

DIODDEFWYR

MAE DIODDEFWYR WRTH WRAIDD POPETH A WNAWN. RYDYM WEDI ATGYFNERTHU GWASANAETHAU HANFODOL ER MWYN HELPU DIODDEFWYR TROSEDDAU I YMDOPI A GWELLA

Rydym wedi gwrando ar bobl sydd wedi dioddef trosedd er mwyn gwella gwasanaethau yn sylweddol. Mae Ffocws Dioddefwyr De Cymru yn darparu'r help sydd ei angen ar bobl, pan fydd ei angen arnynt.

Mae Cronfa Dioddefwyr Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru wedi cefnogi arloesedd mewn gwasanaethau cymorth trydydd sector, gan ddyrannu dros £475,000 dros y tair blynedd diwethaf er mwyn helpu dioddefwyr i wella.

ATAL A GOSTWNG TROSEDDU

MAE EIN HYMRWYMIAD I FENTRAU ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR WEDI LLYWIO NEWIDIADAU RADICAL I LEIHAU NIFER Y BOBL SY'N AILDROSEDDU YN Y GRŴP OEDRAN 18-25, DRWY DDARPARU CYMORTH SY'N CANOLBWYNTIO AR DDEALL EU HANGHENION

Mae'n darparu cyfle dysgu euraid wrth iddynt bontio i fyd oedolion, gan ddylanwadu ar gydberthnasau a llesiant ac rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a phartneriaid eraill i hybu dulliau ymyrryd yn gynnar gyda throseddwyr benywaidd.

Mae'r rhain yn gyson â'n rhaglen 'Dyfodol' – gwaith uchelgeisiol sy'n torri cylch camddefnyddio sylweddau a throseddu drwy weithio gyda phobl o'r adeg y maent yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, gan ddarparu asesiad a chymorth trylwyr a di-dor ar gyfer dalfa'r heddlu, llysoedd, carchardai Cymru ac yn y gymuned. Wedi ei hariannu ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf a Charchardai, mae'n cynnwys y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, mewn partneriaeth â'r GIG ac Awdurdodau Lleol ledled De Cymru i ddatblygu gwasanaethau ategol.

GWIRFODDOLWYR

GWIRFODDOLI YW "GWEITHRED HANFODOL DINASYDDIAETH" AC MAE BOB AMSER WEDI BOD YN RHAN O BLISMONA DRWY GYDSYNIAD

Rydym wedi adeiladu ar seiliau cadarn a sefydlwyd dros y blynyddoedd diwethaf drwy annog gwirfoddolwyr i chwarae rhan lawn mewn gwasanaethau plismona lleol. Mae nifer y Cwnstabliaid Gwirfoddol wedi cynyddu ynghyd â'r oriau a neilltuir ganddynt i'r gymuned, tra bod ein gwirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu yn helpu eu cymuned gan ddatblygu sgiliau cyfathrebu a gweithio tuag at gymhwyster cymorth cyntaf Sant Ioan a Gwobr Dug Caeredin.

Mae Myfyrwyr-wirfoddolwyr bellach yn chwarae rhan allweddol ar gampysau prifysgolion, trefi a chanol dinasoedd, mae ein Hymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn craffu ar y modd y caiff pobl eu trin yn y celloedd, ac mae ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn cefnogi ein gwaith gyda chŵn a cheffylau'r heddlu.



PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD (ACEs)

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio ymateb i'w hymchwil arloesol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Mae hyn wedi arwain at gydnabod Cymru fel arweinydd byd wrth fynd i'r afael â chanlyniadau ACEs.

Gan mai'r heddlu yn aml yw'r asiantaeth gyntaf i fod mewn cysylltiad â phlant neu deuluoedd sydd angen help, mae ein rhaglen waith £6.8m gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, y tri heddlu arall yng Nghymru a phartneriaid ehangach (Camau Cynnar Gyda'n Gilydd) yn datblygu mentrau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, torri cylch niwed ac atal problemau rhag gwaethygu. Yn y pen draw, bydd hyn yn atal pobl rhag dod yn ddioddefwyr, yn atal pobl rhag troseddu ac yn lleihau'r galw ar yr heddlu a'n partneriaid.

Rydym yn hyderus y bydd y gwaith hwn yn profi'n ddiamheuol y bydd atal ac ymateb i ACEs yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed ac yn lleihau trosedd a niwed i iechyd ac i gymdeithas yn y tymor hwy gan ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gan weithio yn yr amgylchedd datganoledig, byddwn yn parhau i lywio'r gwaith hwn ac archwilio'r canlyniadau a'r cyfleoedd yn y dyfodol i leihau niwed a galw mewn ffordd feirniadol.

GALLAI ATAL ACEs MEWN CENEDLAETHAU I DDOD LEIHAU'R LEFELAU CANLYNOL:



DEFNYDD O HEROIN/COCÊN 66%
(Oes)



CARCHAR 65%
(Oes)



CYFLAWNI TRAIS 60%
(Yn y flwyddyn ddiwethaf)



ERLEDIGAETH DRWY DRAIS 57%
(Yn y flwyddyn ddiwethaf)



DEFNYDD O GANABIS 42%



BEICHIOGRWYDD ANFWRIADOL YMYSG POBL IFANC YN EU HARDDEGAU BY 41%



YFED Â RISG UCHEL 35%



RHYW CYNNAR 31%
(Cyn 16 oed)



SMYGU TYBACO NEU E-SIGARÉTS 24%
(Ar hyn o bryd)



DEIET GWAEL 16%
(<2 dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd ar hyn o bryd)

Rydym yn cefnogi mentrau sydd yn barod yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Os yw'n rhy hwyr i'w atal nid yw'n rhy hwyr i gymryd camau cadarnhaol prydlon.

Ffynhonnell ystadegau: Iechyd Cyhoeddus Cymru, Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) 2015

BLAENORIAETH 1

BYDDWN YN GOSTWNG AC YN ATAL TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL ER MWYN CADW POBL YN DDIOGEL AC YN HYDERUS YN EU CARTREFI A'U CYMUNEDAU

Byddwn yn ddidostur o ran trosedd a'r hyn sy'n ei hachosi, gan fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol drwy ymyrraeth gynnar a chamau gweithredu prydlon a chadarnhaol, partneriaeth a gwerthuso "yr hyn sy'n gweithio".

Sut rydym yn gwneud hyn:

PLISMONA YN Y GYMDOGAETH

- Rhoi'r canfyddiadau o'n hadolygiad ar y cyd o Blismona yn y Gymdogaeth ar waith a hyrwyddo gwaith partneriaeth integredig
- Cydnabod rôl benodol Swyddogion Cymorth Cymunedol a datblygu eu sgiliau ymhellach i ddatrys problemau, gwrando ar gymunedau lleol, ymgysylltu â nhw a'u grymuso
- Cysylltu Swyddogion yr Heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion, timau troseddau ieuenctid a thimau plismona lleol
- Arwain camau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol a darparwyr tai cymdeithasol
- Gweithio gyda phobl ifanc i ehangu ein cynllun Gwirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu De Cymru, cynnig sgiliau ym maes ymgysylltu, cymwysterau cymorth cyntaf Sant Ioan a'r cyfle i ddatblygu drwy Wobr Dug Caeredin
- Recriwtio mwy o Gwnstabliaid Gwirfoddol o bob rhan o'n cymunedau

GWEITHIO O FEWN CYMUNEDAU

- Helpu cymunedau lleol i ddod yn gryf drwy ymgymryd â rôl weithredol i ddatrys problemau lleol gan weithio gyda phartneriaid, y sector gwirfoddol a'r cynllun Gwarchod Cymdogaeth
- Hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gydag aelodaeth weithredol lawn o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chysylltu haenau cyd-fyrddau ym mhob un o'n hardaloedd
- Hyrwyddo effeithiolrwydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol
- Datblygu'r Rhaglen Heddlu mewn Ysgolion i fod yn addasadwy i gefnogi anghenion lleol a mentrau atal
- Cefnogi Timau Troseddau Ieuenctid i atal a gostwng troseddu, aildroseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc
- Gweithio drwy Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru i gefnogi pobl ifanc i fyw bywydau diogel, iach, boddhaus

MYND I'R AFAEL Â THRAIS DIFRIFOL

- Gwella ymhellach ein dulliau arloesol o ymdrin â thrwyddedu a'r economi liw nos – er enghraifft, ein hymgyrchoedd Man Cymorth Abertawe a Drinkaware – i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus
- Hyrwyddo arloesedd i ostwng troseddu treisgar drwy rannu a dadansoddi data amlasiantaeth a gweithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo mentrau ymyrraeth gynnar ac atal
- Ymyrryd yn gynnar mewn meysydd lle mae pobl ifanc, agored i niwed yn fwy tebygol o gael eu camddefnyddio gan grwpiau troseddu cyfundrefnol er mwyn sicrhau eu bod yn gydnerth ac yn cael y cyfleoedd a fydd yn eu hatal rhag wynebu trais difrifol



BLAENORIAETH 2

BYDDWN YN CYNNWYS AC YN GRYMUSO EIN CYMUNEDAU, GAN WEITHIO GYDA PHARTNERIAID O FEWN LLYWODRAETH LEOL, IECHYD, TÂN A LLYWODRAETH CYMRU I DDARPARU GWASANAETHAU SYDD EU HANGEN AR BOBL

Rydym yn falch o fyw mewn cymuned amrywiol, mae'n ein gwneud ni yr hyn ydym; byddwn yn parhau i wella mynediad i Heddlu De Cymru, fel bod pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn cynnwys gwelliant parhaus ym mherfformiad y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a deall y gofynion ar ein rhif 101 nad yw'n un brys er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ymateb prydlon a chadarnhaol a bod hyder ganddynt i'n hysbysu.

Sut rydym yn gwneud hyn:

CYNNWYS

- Datblygu Heddlu De Cymru i adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn, gyda ffocws ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o hyd er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol
- Gwella cyfraddau recriwtio, cadw a datblygu menywod yn Heddlu De Cymru
- Rhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith
- Annog a galluogi ein cymunedau a'n partneriaid i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio a darparu gwasanaethau
- Tynnu sylw at bwysigrwydd rolau gwirfoddoli ym maes plismona a chynyddu cyfleoedd i bobl gyfrannu'n uniongyrchol at gymunedau diogel a hyderus

GRYMUSO

- Gweithredu strategaeth sy'n dangos ein hymrwymiad i gymryd rhan a sicrhau dulliau cyfathrebu da, yn fewnol ac yn allanol
- Helpu aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaeth priodol ynghylch materion heblaw am blismona
- Darparu ymateb Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith
- Parhau i helpu i ariannu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion lleol

GALLUOGI

- Parhau i ddatblygu ymgysylltiad digidol er mwyn gwneud yr heddlu yn fwy hygyrch, gan gynnwys cyflwyno dull adrodd am drosedd ar-lein
- Gwneud yr opsiwn 101 ac opsiynau eraill o gysylltu â'r heddlu nad ydynt yn rhai brys yn fwy hygyrch, gan sicrhau yr ystyrir anghenion amrywiol
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gynnwys ein cymunedau a dioddefwyr wrth ddatblygu gwasanaethau Heddlu De Cymru a'r materion sy'n effeithio arnynt



BLAENORIAETH 3

BYDDWN YN GWEITHIO I DDIOGELU AELODAU MWYAF AGORED I NIWED EIN CYMUNEDAU, DEALL ACHOSION A CHYMRYD CAMAU PRYDLON A CHADARNHAOL WRTH I BROBLEMAU GODI

Byddwn yn meithrin ein dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu ein cymunedau er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt, gan ddilyn egwyddorion ymyrraeth gynnar a chydweithredu â phartneriaid er mwyn nodi a helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Sut rydym yn gwneud hyn:

MYND I'R AFAEL Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

- Dechrau defnyddio model ariannu mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion
- Gwella ein hymwybyddiaeth a'n hymateb i ddioddefwyr stelcio ac aflonyddu
- Dysgu o MASH (Hybiau Diogelu Amlasiantaethol) ym Mhontypridd, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr a'u cymhwyso mewn mannau eraill
- Lansio IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gyda'r Bwrdd Iechyd – cwblhau'r gwaith o'i gyflwyno ym mhob rhan o Dde Cymru
- Datblygu a phrofi ymyriadau sy'n ceisio canolbwyntio ar gyflawnwyr troseddau drwy ddarparu ymyriadau "cefnogi neu darfu"
- Sefydlu rhwydwaith dysgu amlasiantaethol rhanbarthol

IECHYD MEDDWL AC ANABLEDD

- Gweithio gyda phartneriaid i wella dulliau cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu a hyrwyddo cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno mannau diogel, cyfeillgar ar wahân i'r ddalfa, i unigolion sy'n wynebu argyfwng neu sy'n wynebu risg o gael eu cadw o dan Adran 136 neu 135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Cyflogi gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT A'U CAM-DRIN

- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Parhau i ddatblygu gwaith Eiriolwyr Plant gyda dioddefwyr a gwella'r broses o adnabod plant sydd mewn perygl, gan weithio gydag asiantaethau partner i gynnig cymorth effeithiol

POBL SY'N AGORED I NIWED

- Adolygu data troseddau casineb a phrofiadau dioddefwyr er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol ac yn fodlon ar yr ymateb a gânt
- Annog dioddefwyr troseddau casineb i roi gwybod am ddigwyddiadau fel y gallant gael y cymorth priodol
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Get Safe Online i ddiogelu pobl rhag sgamiau ac ymddygiad twyllodrus, sy'n broblem gynyddol



BLAENORIAETH 4

BYDDWN YN GWEITHIO I WNEUD Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL LEOL MOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON Â PHOSIBL ER MWYN DIWALLU ANGHENION DIODDEFWYR A GOSTWNG AILDROSEDDU

Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol roi pwyslais clir ar ostwng troseddu gan ganolbwyntio ar atal troseddu ac aildroseddu gan leihau niwed a risg i'r cyhoedd.

Sut rydym yn gwneud hyn:

DIODDEFWYR

- Ariannu a datblygu gwasanaethau dioddefwyr sy'n gweithio i'r rhai sydd â'r angen mwyaf
- Gwella canlyniadau i ddioddefwyr a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy ddefnydd cynyddol o gamau adferol
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith dealltwriaeth newydd i ddioddefwyr a defnyddwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r rhan a chwaraeir gan yr heddlu wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o'u profiad

TROSEDDWYR

- Gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau'r cyd-effeithiolrwydd gorau posibl
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i drawsnewid y system cyfiawnder yng Nghymru ar gyfer menywod a phobl ifanc, gan weithredu'r glasbrintiau sy'n nodi'r newidiadau sydd eu hangen
- Ehangu ar y cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar, atal pobl rhag cyflawni troseddau, adeiladu ar y Cynllun Braenaru i Fenywod a rhaglenni 18-25 i wella cyfleoedd bywyd
- Datblygu llwybrau i bobl â phroblemau Iechyd Meddwl fel eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt
- Gwella ein hymateb i anghenion a rheolaeth ein troseddwyr mwyaf peryglus, gan sicrhau bod diogelwch dioddefwyr wrth wraidd ein hymateb, gan ddefnyddio'r model WISDOM
- Buddsoddi mewn cydweithrediadau â phartneriaid lleol i ddatblygu ystod o fentrau ar sail tystiolaeth wedi'u hanelu at ymyrraeth gynnar a chyflawnwyr trais domestig, gan gynnwys prosiect "DRIVE" Safe Lives

PARTNERIAID

- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i ddatblygu dull integredig a chydlynol o reoli troseddwyr o'r dechrau i'r diwedd ledled De Cymru
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ymarfer wedi ei lywio gan drawma, megis treialu ymateb cyfiawnder ieuenctid i ACEs, er mwyn gwella ein hymateb i anghenion pobl ifanc agored i niwed sy'n troseddu dro ar ôl tro
- Adnewyddu a darparu'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Dyfodol a gomisiynwyd ar y cyd sy'n canolbwyntio ar atal pobl rhag aildroseddu, a chysoni'r ddarpariaeth â'n partneriaid iechyd lleol
- Meithrin gwell dealltwriaeth o effeithiau natur amrywiol newidiol ein poblogaeth leol er mwyn cefnogi cymunedau cydlynol, diogel a hyderus



BLAENORIAETH 5

BYDDWN YN GWNEUD EIN CYFRANIAD EHANGACH AT BLISMONA DRWY'R GOFYNIAD PLISMONA STRATEGOL, GAN GYNNWYS PLISMONA DIGWYDDIADAU MAWR YN LLWYDDIANNUS

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi bygythiadau cenedlaethol allweddol a'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw Mae Heddlu De Cymru yn heddlu strategol allweddol a bydd yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddigwyddiadau cenedlaethol (er enghraifft terfysgoedd Llundain yn 2011) a digwyddiadau rhyngwladol allweddol.

Sut rydym yn gwneud hyn:

GYDAG ERAILL, RYDYM YN CANOLBWYNTIO'N BARHAUS AR Y CANLYNOL:

- Terfysgaeth
- Troseddu difrifol a chyfundrefnol
- Digwyddiadau seiberddiogelwch
- Argyfyngau Sifil
- Trefn Gyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'u Cam-drin

Mae cyfrannu at yr heriau hyn yn flaenoriaeth ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Cymru yn cael ei gwasanaethu'n dda drwy drefniadau cydweithredol.

- Trechu radicaliaeth yn ein cymunedau drwy ennyn ymddiriedaeth er mwyn hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol
- Cydweithredu i ymateb yn effeithlon i ddigwyddiadau mawr, gan gadw pobl yn ddiogel
- Nodi, deall a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â bygythiadau newydd megis troseddau ar-lein
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a rhwystro caethwasiaeth fodern, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chamdriniaeth
- Sicrhau bod Byrddau Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol yn ymateb i faterion lleol
- Gweithio gyda phartneriaid, fel y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru, er mwyn datblygu dulliau mwy effeithiol o reoli troseddwyr cyfundrefnol



BLAENORIAETH 6

BYDDWN YN GWARIO EICH ARIAN YN DDOETH AC YN CEFNOGI EIN POBL ER MWYN DARPARU'R GWASANAETH PLISMONA GORAU POSIBL YN EICH CYMUNED

Gwnaethom brofi toriadau difrifol i Grant yr Heddlu gan Lywodraeth Ganolog. Mae hynny'n golygu bod penderfyniadau anodd yn anochel, ond hyd yn oed ar adeg anodd fel hon rydym yn cadw ein hymrwymiad i ddiogelu Plismona yn y Gymdogaeth yn Ne Cymru a gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid er mwyn gwneud ein cymunedau'n ddiogel. Dangosir hyn drwy ddadansoddiad sy'n dangos ein bod wedi cyflawni bron £0.5 biliwn o fudd cymdeithasol ac economaidd yn ein cymunedau ers 2011.

Cyflwynir adnoddau'n lleol ac yn strategol gyda gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar angen.

Sut rydym yn gwneud hyn:

POBL

- Datblygu strategaeth pobl sy'n canolbwyntio ar lesiant ac sy'n rhoi'r bobl gywir yn y lle cywir, gan ddatblygu'r sgiliau i gyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, gan gydnabod mai nhw yw ein hased mwyaf
- Cynnal niferoedd yr heddlu hyd y gallwn wrth i ni gael ein gorfodi i wneud toriadau pellach mewn gwariant
- Ceisio model plismona cynaliadwy yn Ne Cymru sy'n ystyried y pwysau
- Hyrwyddo'r gwaith o recriwtio, cadw a dyrchafu menywod a phobl BAME yn ein heddlu
- Recriwtio, hyfforddi, datblygu ac ailhyfforddi mwy o Gwnstabliaid Cynorthwyol a Gwirfoddolwyr yr Heddlu
- Rhoi llais i'n cymunedau wrth osod lefel praesept yr heddlu

YSTADAU

- Lleihau costau a gwella effeithlonrwydd drwy ddull ystwyth
- Gwneud ein hystad yn addas at y diben gan rannu costau caffael a chefn swyddfa â heddluoedd eraill a phartneriaid yn y sector cyhoeddus
- Cydweithio â phartneriaid lleol a heddluoedd eraill ar gaffael yn gynaliadwy er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith ein cyllideb

CYFARPAR

- Gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg drwy'r Is-adran Gwasanaethau Digidol cydweithredol, yn enwedig drwy ddata symudol, iR3 a chamerâu a gaiff eu gwisgo ar y corff



GALLUOGI CYFLAWNI

MAE'R CYNLLUN YN NODI NID YN UNIG Y BLAENORIAETHAU I'W DATBLYGU GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU OND HEFYD Y GWEITHGARWCH GWEITHREDOL I'W GYFLAWNI MEWN YMATEB I FLAENORIAETHAU O'R FATH SY'N DOD O DAN GYFARWYDDYD A RHEOLAETH Y PRIF GWNSTABL

Mewn llawer o achosion, mae'r Cynllun hefyd yn adlewyrchu meysydd a ddatblygwyd ar y cyd ac mae'r cyfeiriadau at yr hyn y byddwn 'ni' yn ei wneud yn adlewyrchu'r gwaith hwn ar y cyd, gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cyflawni eu rolau ar sail ymddiriedaeth, parch, hyder a thryloywder.

ATAL

Bydd atal wrth wraidd ein gwaith o gadw ein cymunedau yn ddiogel, gan ein helpu i fynd i'r afael â breguster, niwed a galw.

PARTNERIAETH

Bydd Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn ailddiffinio ein dull gweithredu o weithio mewn partneriaeth ac yn adlewyrchu sefyllfa niweidiol y sector cyhoeddus yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Gweledigaeth Blismona Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2025.

CADW'R HEDDWCH


Erbyn 2021, bydd ein hymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau a dwyn troseddwyr gerbron y llys yn fwy amlwg i'r cyhoedd a'n partneriaid.

DATBLYGU EIN SEFYDLIAD

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn datblygu Heddlu De Cymru ymhellach er mwyn sicrhau mai ni yw un o'r gwasanaethau heddlu mwyaf modern a blaengar yn y Deyrnas Unedig.

DATBLYGU EIN POBL

Bydd Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn datblygu ein pobl yn gadarnhaol, ac yn eu helpu i wasanaethu cymunedau De Cymru yn well.



24 AWR YN HEDDLU DE CYMRU

BOB DYDD MAE HEDDLU DE CYMRU YN DELIO AG ODDEUTU...



O ALWADAU I'R GANOLFAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS



O ALWADAU YN YMWNEUD Â LLES DIOGELWCH Y CYHOEDD

29

O UNIGOLION AR GOLL



35

O YMOSODIADAU

9

TROSEDD RYWIOL



93

O ADRODDIADAU O YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL



O BOBL YN Y DDALFA

97

O DDIGWYDDIADAU DOMESTIG

A'R BROSES BARHAUS O REOLI TUA...

2,133

O DROSEDDWYR SY'N CAEL EU RHEOLI O DAN MAPPA
(TREFNIADAU AMLASIANTAETHOL AR GYFER AMDDIFFYN Y CYHOEDD)

1,481

O BLANT YN CAEL EU CEFNOGI AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT

6,354

O DDIODDEFWYR CAM-DRIN DOMESTIG SY'N CAEL EU CAM-DRIN YN GYSON

YR HER ARIANNOL

MAE EFFEITHIAU CYFUNOL TORIADAU GRANT A CHWYDDIANT YN GOLYGU Y BU ANGEN DOD O HYD I LAI O WARIANT O £58M RHWNG 2010/11 A 2019/20

MAE HEDDLU DE CYMRU WEDI WYNEBU HERIAU ANFERTHOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF:

- Mae tua thraean wedi ei dorri o'r arian a arferai ddod yng Ngrant yr Heddlu o'r Swyddfa Gartref
- Mae'r gofynion ar wasanaethau'r heddlu yn parhau i gynyddu er nad oes a wnelo bron 90% o'r gofynion hynny â throseddu
- Dim cydnabyddiaeth o'r gofynion ychwanegol ar gyfer plismona Prifddinas fel yr hyn a dderbynnir gan Lundain a Chaeredin

ER GWAETHAF YR HERIAU HYN:

RYDYM YN EFFEITHIOL –

gan gyflawni bron £0.5 biliwn o fudd cymdeithasol ac economaidd yn ein cymunedau ers 2011


RYDYM YN ARLOESOL –

gan arwain yn genedlaethol ar y defnydd o dechnoleg i fynd i'r afael â throseddau


RYDYM YN EFFEITHLON –

gan gyflawni £51m o arbedion trawsnewidiol

Gostyngiad yng Nghyllid Llywodraeth Ganolog ar gyfer De Cymru yn y Miliynau (rhwng 2010 a 2018)



Nifer Swyddogion yr Heddlu yn Ne Cymru (2010-2018)



HEDDLU	TRETH GYNGOR BAND D 2018/19
Gogledd Cymru	£258.12
Gwent	£238.34
De Cymru	£233.52
Dyfed Powys	£224.56

Yn 2018-19, tâl praesept De Cymru oedd y tâl isaf ond un am blismona yng Nghymru. Mae cynnydd yn y praesept wedi bod yn hanfodol i ddiogelu nifer swyddogion yr heddlu a gwasanaethu ein cymunedau.

PLISMONA DE CYMRU

Mae plismona yn gymhleth ac yn heriol o ran ei natur; bydd nifer fawr o ffactorau'n effeithio ar yr hyn sy'n ofynnol o gyflwr yr economi i'r tueddiadau technolegol diweddaraf, ond eto i gyd disgwylir i heddluoedd addasu ac ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn.


Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (MHIC) yn cynnal arolygiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n darparu'r gwasanaeth a ddisgwylir ganddo. Mae'r broses hon wedi gwerthuso Heddlu De Cymru fel a ganlyn:

	EFFEITHIOLRWYDD – DA	EFFEITHLONRWYDD – DA	DILYSRWYDD – DA
CRYFDERAU	Gweithio mewn partneriaeth	Deall y gofynion a'r gallu	Diwylliant moesegol cryf
	Deall bregusrwydd a'r ymagwedd at ddiogelu	Systemau a threfniadau cydweithredol â heddluoedd ac asiantaethau eraill	Proses gwyno dryloyw
			Ffocws ar lesiant staff
DATBLYGU YMHELLACH	Cefnogaeth i'r rhai sy'n wynebu argyfwng Iechyd Meddwl	Trafod galwadau 101	Cynrychiolaeth BAME
	Ymchwilio i achosion o stelcio ac aflonyddu	Dangos buddiannau gwaith cydweithredol	Proses arfarnu staff

MAE'R YSGRIFENNYDD GWLADOL HEFYD YN NODI BYGYTHIADAU Y MAE'N RHAID PARATOI HEDDLUOEDD I YMDRIN Â NHW



Mae'r wybodaeth hon yn dangos yn gyflym y gofynion sydd arnom fel gwasanaeth ond rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun ein perfformiad a'n taith ein hunain fel y gwelir yn y graff isod, sy'n dangos bod llawer iawn o gydgyfeirio bellach rhwng yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei brofi a'r hyn yr hysbysir yr heddlu amdano:



MAE DE CYMRU YN PARHAU I FOD YN UN O'R LLEFYDD MWYAF DIOGEL I FYW A GWEITHIO YNDDO AC I YMWELD AG EF AC MAE'R GWASANAETH A DDARPERIR I DDIODDEFWYR YMHLITH Y GORAU YNG NGHYMRU A LLOEGR.

- Amcangyfrif o'r troseddau a brofir yn ardal Heddlu De Cymru
- Amcangyfrif o droseddau yr hysbysir Heddlu De Cymru amdanynt
- Troseddau a gofnodwyd gan Heddlu De Cymru

YMGYSYLLTU A CHYNNWYS

MAE YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD, EU CYNNWYS A'U GRYMUSO YN ELFENNAU HANFODOL O OSTWNG TROSEDDU, DARPARU GWASANAETH YR HEDDLU SY'N DIWALLU ANGHENION Y GYMUNED A DATBLYGU CYDBERTHYNAS O YMDDIRIEDAETH A HYDER

Fel llais y bobl ym maes plismona, mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i ddod â'n pobl, y cyhoedd a phartneriaid ynghyd, gan eu galluogi a'u grymuso i chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau. Mae gwaith a gyflawnir mewn partneriaeth, megis Prosiect Cyfranogiad Goroeswyr Cymorth i Ferched Cymru yn dangos buddiannau'r dull gweithredu hwn – gyda gwasanaethau cymorth yn cael eu datblygu drwy gynnwys dioddefwyr a Heddlu De Cymru yn dysgu o brofiadau i addasu ei ymateb ei hun i ddiwallu angen yn well.



Er ein bod yn ehangu ein cyrhaeddiad digidol ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac yn cynyddu ei ddefnydd er mwyn ymgysylltu â'n cymunedau a'u cynnwys, rydym hefyd yn cydnabod yr amrywiaeth gyfoethog sydd yn Ne Cymru a'r angen i sicrhau y clywir llais pob un o'n cymunedau.



Mae ein dull o ymgysylltu a chynnwys pobl yn seiliedig ar ddeall materion, nodi'r cymunedau a'r partneriaid dan sylw a chynnig cyfleoedd i ddylanwadu ar wasanaethau sy'n gynhwysol ac yn hygyrch.

YR HYN Y MAE EIN PARTNERIAID YN EI DDWEUD WRTHYM

MAE CYDWEITHREDU YN GREIDDIOL I'N DULL GWEITHREDU AC YN ELFEN HOLLBWYSIG O SICRHAU BOD Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL YN RHYWLE LLE Y GALL PARTNERIAID FOD YN FWY HYDERUS AC EFFEITHIOL

Dim ond drwy bartneriaethau cryf a chanlyniadau a rennir y gellir ymyrryd yn gynnar a chymryd camau prydlon a chadarnhaol. Mae deall ffocws ein partneriaid yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu drwy ein blaenoriaethau ein hunain, gan ein gwneud i gyd yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth gyflawni ein nodau.


PRIF BRYDERON EIN PARTNERIAID YW:



YR HYN Y MAE'R CYHOEDD YN EI DDWEUD WRTHYM

MAE DEALL AC YMATEB I ANGHENION EIN CYMUNEDAU YN FFOCWS ALLWEDDOL I HEDDLU DE CYMRU. RYDYM YN YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU AC YN EU CYNNWYS MEWN NIFER O FFYRDD A DYMA RAI O'R PETHAU MAENT YN EI DDWEUD WRTHYM*:

YR HYN Y MAENT AM I NI EI DDIOGELU RHAG TORIADAU PELLACH:





BYDDAI'R GANRAN HON O BOBL YN FODLON CYFRANNU MWY AT ARIANNU'R HEDDLU DRWY'R DRETH GYNGOR

BLE MAENT AM I NI FUDDSODDI OS GALLWN DDOD O HYD I'R ADNODDAU I WNEUD MWY:



Diogelu timau plismona yn y gymdogaeth yn eich ardal



Diogelu dioddefwyr a phobl sy'n agored i niwed ond parhau i allu ymchwilio ac ymateb



Gwella ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn barhaus er mwyn ymateb i adroddiadau brys 999 ac adroddiadau nad ydynt yn rhai brys 101 yn effeithiol

*Arolwg o 1,619 o aelodau'r gymuned, Rhagfyr 2018

EIN BLAENORIAETHAU

BYDD HEDDLU DE CYMRU, WEDI EI ARWAIN GAN Y COMISIYNYDD A'R PRIF GWNSTABL, YN...



GOSTWNG AC YN ATAL TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL ER MWYN CADW POBL YN DDIOGEL AC YN HYDERUS YN EU CARTREFI A'U CYMUNEDAU



CYNNWYD AC YN GRYMUSO EIN CYMUNEDAU, GAN WEITHIO GYDA PHARTNERIAID MEWN LLYWODRAETH LEOL, IECHYD, Y GWASANAETH TÂN A LLYWODRAETH CYMRU I DDARPARU GWASANAETHAU SYDD EU HANGEN AR BOBL



GWEITHIO I DDIOGELU AELODAU MWYAF AGORED I NIWED EIN CYMUNEDAU, DEALL ACHOSION A CHYMRYD CAMAU PRYDLON A CHADARNHAOL WRTH I BROBLEMAU GODI



GWEITHIO I WNEUD Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL LEOL MOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON Â PHOSIBL ER MWYN DIWALLU ANGHENION DIODDEFWYR A GOSTWNG AILDROSEDDU



GWNEUD EIN CYFRANIAD EHANGACH AT BLISMONA DRWY'R GOFYNIAD PLISMONA STRATEGOL, GAN GYNNWYS PLISMONA DIGWYDDIADAU MAWR YN LLWYDDIANNUS



GWARIO EICH ARIAN YN DDOETH AC YN CEFNOGI EIN POBL ER MWYN DARPARU'R GWASANAETH PLISMONA GORAU POSIBL YN EICH CYMUNED

Y Gwir Anrh Alun Michael

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
De Cymru

@commissionersw

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg

Tŷ Morgannwg
Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

01656 869366
commissioner@south-wales.pnn.police.uk
southwalescommissioner.org.uk

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg